



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Adroddiad ar y Gymraeg 2017-18

Blwyddyn adrodd: 2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** Awst 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 745A2018-19

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

- 1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar y Gymraeg yn amlinellu'r gwaith rydym wedi'i wneud i hyrwyddo'r iaith o fewn Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2017-18 ac yn rhoi cipolwg ar ein sefyllfa bresennol.
- 2 Cawsom ein [hysbysiadau cydymffurfio mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg](#) (y safonau) ym mis Gorffennaf 2016. Roedd y dyddiad gorfodi ar gyfer llawer ohonynt ym mis Ionawr 2017 a daeth 14 o safonau ychwanegol i rym yn ystod 2017-18.
- 3 Fel rhan o'r safonau mae'n ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y ffordd rydym wedi cydymffurfio â safonau penodol ac, yn gyffredinol, yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf yn dilyn blwyddyn lawn o gydymffurfio â'r safonau. Er mai prif swyddogaeth yr adroddiad hwn yw sicrhau cydymffurfiaeth, rydym hefyd yn ei ystyried yn ymarfer da o ran cadarnhau iechyd yr iaith yn y sefydliad. Mae hefyd yn gyfle i fyfrio ar yr hyn rydym wedi'i wneud i hyrwyddo'r defnydd ac o'r Gymraeg, ac ymwybyddiaeth ohoni, yn ystod y flwyddyn flaenorol a chydabod bylchau o ran yr hyn y gallem fod yn ei wneud.
- 4 Cafodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru hysbysiadau cydymffurfio ar wahân. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar y ddwy set o safonau. Caiff ei rannu drwy ddefnyddio ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a bydd ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd.
- 5 Rydym yn amlinellu ein [trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r safonau ar ein gwefan](#). Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi Swyddog Iaith Gymraeg llawn amser sy'n gyfrifol am reoli'r safonau a hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol o ddydd i ddydd. Mae Cyfarwyddwr yn gyfrifol am y trosolwg strategol o'r Gymraeg yn y sefydliad a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am unrhyw faterion llywodraethu corfforaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- 6 Rydym wedi cynnal llawer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Swyddfa Archwilio Cymru ac rydym yn nodi hyn isod. Gellir gwneud mwy ac rydym yn gobeithio adeiladu ar waith y flwyddyn flaenorol. Bydd strategaeth iaith Gymraeg, y bwriedir ei chyhoeddi yn yr hydref ac a fydd yn nodi ein sefyllfa bresennol, ein huchelgeisiau a'n camau gweithredu arfaethedig i gyflawni'r uchelgeisiau hynny, yn allweddol i hyn.

## Cyfleu'r safonau i'r staff

- 7 Mae cyfleu gofynion y safonau i'r staff yn bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael iddynt – gan gynnwys cyfleoedd dysgu, technoleg a deunydd adnoddau dynol. Mae hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau o dan y safonau, er enghraifft wrth ateb galwadau ffôn neu ohebiaeth allanol.
- 8 Pan fydd aelodau newydd o staff yn cyrraedd y sefydliad, cânt sesiwn sefydlu benodol lle y cânt eu cyflwyno i'r safonau sy'n ymwneud â'u gwaith a'u cyflogaeth gyda ni. Mae hefyd yn ofynnol i newydd-ddyfodiaid nad ydynt yn siarad Cymraeg

gwblhau cwrs ar-lein 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol lle y dysgir rhywfaint o Gymraeg sylfaenol ar gyfer y gweithle ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg iddynt. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ym [mharagraff 21](#).

- 9 Rydym wedi darparu nifer fawr o adnoddau a chanllawiau ar y safonau sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn gweithio i'r staff. Er enghraifft, rydym yn darparu canllawiau a thempledi ar gyfer llofnodion e-bost a negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa', gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o deitlau swyddi. Mae cyfres o dechnolegau iaith Gymraeg hefyd ar gael i'r staff ar gais sy'n cynnwys 'Cysill' a 'Cysgeir', gwirydd sillafu Cymraeg Microsoft Office a 'To Bach'.
- 10 Mae ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn amlinellu'r safonau perthnasol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau ein staff o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys ateb galwadau ffôn ac ymateb i ohebiaeth, parchu dewis iaith y cyrff a archwilir gennym ac aelodau o'r cyhoedd ac ystyriaethau o ran arddangos posterï ac arwyddion o amgylch ein swyddfeydd. Rydym hefyd wedi ychwanegu bod yn rhaid i unrhyw neges e-bost a anfonir at bob aelod o staff fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg wedi ei gosod fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu'r hawliau newydd sydd gan y staff o dan y safonau megis argaeledd technolegau iaith Gymraeg, yr hyfforddiant iaith Gymraeg sydd ar gael iddynt a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn nodi eu hawliau i gael cyfarfodydd disgyblu a chwynion a dogfennau adnoddau dynol yn Gymraeg.
- 11 Mae'r polisi iaith Gymraeg ar gael yn hawdd i'r staff ei ddarllen ar ein mewnrwyd a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo drwy anfon negeseuon e-bost at bob aelod o staff a chyhoeddi erthyglau newyddion ar y fewnrwyd.
- 12 Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom atgoffa staff drwy sesiynau ymwybyddiaeth, sesiynau sefydlu a negeseuon gan gyfarwyddwyr at bob aelod o staff fod angen ateb galwadau ffôn â chyfarfodiad Cymraeg. Hefyd, cynhaliwyd ymgyrch 'Bore da/Prynhawn da', gyda phosterï, erthyglau newyddion ar y fewnrwyd a deunydd ar sgriniau electronig yn ein swyddfeydd, er mwyn helpu ac annog y staff i ateb galwadau ffôn â'r ymadrodd Cymraeg priodol.
- 13 Er mwyn annog aelodau o staff i gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg wrth anfon negeseuon e-bost, rydym wedi defnyddio swyddogaeth MailTip Outlook i hysbysu'r anfonwr yn awtomatig os yw'r derbynnydd yn 'hapus i gyfathrebu yn Gymraeg' neu'n dysgu, yn ogystal â rhoi rhyw syniad o'r lefel y mae arni. Mae hyn yn golygu bod gan y staff fwy o wybodaeth am bwy arall all siarad Cymraeg ac rydym wedi cael adborth anecdotaidd ei bod wedi annog ac wedi atgoffa aelodau o staff i ymarfer eu Cymraeg ysgrifenedig gyda chydweithwyr, yn enwedig ymhlith dysgwyr.

## Gweithgareddau ychwanegol

- 14 Mae Grŵp Iaith Gymraeg wedi'i sefydlu i gynorthwyo Swyddog yr Iaith Gymraeg er mwyn i ni allu sicrhau, yn ogystal â chydymffurfio â'n dyletswyddau statudol, fod gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant yn y sefydliad. Yn hytrach na phlisma cydymffurfiaeth â'r safonau, ei nod yw ystyried ffyrdd arloesol o hyrwyddo'r iaith. Ar ddiwedd blwyddyn adrodd 2017-18, prif weithgarwch y grŵp oedd trafod strategaeth iaith Gymraeg newydd y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi yn ystod 2018-19.

- 15 Mae ein timau cyfathrebu a chyfieithu wedi penderfynu sicrhau na fydd teitlau ein hymgyrchoedd a'n digwyddiadau yn gyfieithiadau uniongyrchol. Rydym wedi llunio'r camau i ystyried y Gymraeg ar ddechrau'r broses o greu ymgyrchoedd sydd wedi arwain at gyfieithiadau nad ydynt yn rhai uniongyrchol sy'n gweithio'n annibynnol ar yr iaith arall. Er enghraifft, yn ystod ymgyrch newid diwylliant mewnol, defnyddiwyd y byrfodd GREAT yn Saesneg i gynrychioli ein hymddygiadau, ond defnyddiwyd HYDER fel y byrfodd Cymraeg.
- 16 Yn ogystal â sicrhau y gall ein cyfieithiadau fod yn ddogfennau annibynnol yn y ddwy iaith, rydym wedi cymryd cam pellach er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio Cymraeg clir yn ein dogfennau yn ogystal â Saesneg clir. Yn ein [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17](#), crëwyd mini-safle gyda chrynodeb rhyngweithiol lle y canolbwyntiwyd ar ddefnyddio iaith syml a chlir. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, gwelsom gynnydd o 788% yn nifer y bobl a ddarllenodd y fersiwn Gymraeg, tra gwelwyd cynnydd o 72% yn nifer y bobl a ddarllenodd y fersiwn Saesneg. Gwelsom gynnydd o 11.4% yn y nifer y darllenwyr a ddewisodd ddarllen y fersiwn Gymraeg yn hytrach na'r fersiwn Saesneg yn 2017.

## Recriwtio

- 17 Wrth recriwtio o fewn y timau archwilio, mae rheolwyr recriwtio yn adolygu galluoedd iaith Gymraeg y tîm cyfan ac yn ystyried canran y siaradwyr Cymraeg sydd eisoes yn y tîm, a'r ymatebion gan gyrrff i'n harolwg dewis iaith a gynhelir bob tair blynedd. Cynhelir yr arolwg nesaf ar ddiwedd 2018.
- 18 Pan grëir swydd newydd neu pan ddaw swydd yn wag, mae'n rhaid i'r rheolwr recriwtio lenwi achos busnes a'i ddychwelyd i'r adran adnoddau dynol. Mae adran o fewn yr achos busnes yn gofyn am y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl honno yn seiliedig ar ein [Matrics Iaith Gymraeg](#) sydd, yn ei dro, yn seiliedig ar lefelau Canolfan Dysgu'r Gymraeg. Os bydd rheolwr am newid y gofynion iaith Gymraeg ar gyfer swydd wag, bydd yn rhaid iddo roi'r rhesymau dros unrhyw newid.
- 19 Yn ystod 2017-18 gwnaethom hysbysebu am 47 o swyddi newydd neu wag, gan recriwtio'n fewnol ac yn allanol ar gyfer 19 o rolau gwahanol. Hysbysebwyd y sgiliau Cymraeg ar gyfer dwy o'r swyddi hyn fel rhai a oedd yn 'hanfodol' gyda'r 45 o swyddi eraill yn cael eu hysbysebu fel rhai lle roedd y Gymraeg yn 'ddymunol'. Llwyddwyd i recriwtio siaradwr Cymraeg i'r ddwy swydd lle roedd y Gymraeg yn hanfodol.

## Sgiliau a hyfforddiant iaith Gymraeg

- 20 Amlinellir sgiliau Cymraeg staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2017-18 yn [Nhabl 1](#). Ers 2014-15, gwelsom gynnydd o 1 siaradwr Cymraeg ar Lefel Uwch neu Hyfedr, sy'n golygu gostyngiad o tua 1% yn y sefydliad cyfan wrth ystyried cyfanswm y staff. Caiff sgiliau Cymraeg ein staff eu gwerthuso a'u cofnodi ar borth Hunanwasanaeth y Cyflogeion.

**Tabl 1: sgiliau Cymraeg holl staff Swyddfa Archwilio Cymru**

Nifer yr aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaenol, canolradd, uwch neu hyfedredd o ran gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
0 – Ymwybyddiaeth	217	221	221	222
1 – Mynediad	6	5	7	9
2 – Sylfaenol	11	8	6	4
3 – Canolradd	7	6	9	8
4 – Uwch	9	12	1	4
5 – Hyfedredd	18	16	24	21
<b>Cyfanswm</b>	<b>268</b>	<b>268</b>	<b>268</b>	<b>268</b>

21 Yn ystod 2017-18, cymerodd cyfanswm o 50 o aelodau o staff ran mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a/neu ddysgu'r Gymraeg, sy'n cyfateb i gyfanswm o 450 o oriau fel y dangosir yn **Nhabl 2**.

**Tabl 2: hyfforddiant iaith Gymraeg**

Yr hyfforddiant iaith Gymraeg a ddarparwyd i'r staff yn ystod 2017-18

Pennawd y tabl	Dyddiadau	Nifer y staff a gymerodd ran	Cyfanswm yr oriau dysgu
Sesiwn sefydlu ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	Dyddiadau amrywiol Ebrill 2017 – Mawrth 2018	34	17
Cwrs Blasu Ar-lein Cymraeg Gwaith	Medi 2017 – Maw 2018	17 (cwblhaodd 4)	Cwblhawyd 80 o oriau
Cwrs dwys	Ebrill 2017	1	35
	Awst 2017	1	35
Cwrs Preswyl Cymraeg Gwaith	Tachwedd 2017	3	105
Dosbarthiadau wythnosol	Medi 2016 – Mehefin 2017	3	180
	September 2017 – 2018	2	120
	Ionawr 2017 – Mehefin 2020	1	250

- 22 Roedd cynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi bod yn rhan bwysig o'n darpariaeth Dysgu Cymraeg yn ystod 2017-18. Gwnaethom gofrestru ar gyfer y tri opsiwn a oedd ar gael, sef cyrsiau ar-lein, preswyl a dwys. Ein nod yw parhau i ddefnyddio cynllun Cymraeg Gwaith yn ystod 2018-19, ond rydym yn gobeithio bod gwelliannau wedi'u gwneud i drefniadaeth rhai o'u cyrsiau yn dilyn adborth. Rydym hefyd yn anelu at gynnig y cwrs 'Say Something in Welsh' dwy flynedd/chwe mis i'r rhai sydd â diddordeb.
- 23 Er mwyn cydnabod yr ymrwymiad sydd ei angen i aelod o staff ddysgu iaith newydd, ym mis Mehefin 2016 cytunodd uwch reolwyr ar weithdrefnau newydd o ran ymrwymadau amser ac ymrwymadau ariannol. Bellach, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn talu'n llawn am gyrsiau, a gall aelodau o staff ddefnyddio hyd at bum diwrnod o'r lwfans hyfforddi sydd wedi'i ddyrannu iddynt i ddysgu Cymraeg (gyda'r unigolyn yn neilltuo'r un faint o amser i ddysgu ag a neilltuir gan Swyddfa Archwilio Cymru). Amlinellodd y weithdrefn hefyd fod unrhyw aelod o staff sydd â swydd lle mae'r Gymraeg yn ofyniad 'hanfodol' wedi'i eithrio rhag neilltuo'r un faint o amser i ddysgu ag a neilltuir gan Swyddfa Archwilio Cymru
- 24 Mae gennym fentrau eraill er mwyn annog staff i ymarfer eu Cymraeg. Cynhelir sesiwn amser cinio ddwywaith y mis er mwyn galluogi aelodau o staff i gynnal trafodaethau yn Gymraeg â dysgwyr a siaradwyr rhugl eraill a'u helpu i baratoi ar gyfer arholiadau Cymraeg. Hefyd mae cyfle i unigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg ddod i'r sesiynau er mwyn holi am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac ymarfer defnyddio ymadroddion a geiriau syml. At hynny, mae gennym 'Gair y foment' ar ein sgriniau o amgylch y swyddfeydd sy'n cynnwys sillafiad ffonetig o'r geiriau a'r cyfieithiad ohonynt fel y dangosir yn **Ffigur 1**.

## Ffigur 1: 'Gair y foment'

Engheifftiau o bosteri a osodwyd ar sgriniau o amgylch ein swyddfeydd er mwyn tynnu sylw at eiriau Cymraeg.



## Llunio polisïau

25 Rydym wedi cynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg mewn perthynas â 17 o bolisïau a phenderfyniadau polisi yn ystod y flwyddyn fel y'u rhestrir yn **Nhabl 3**. Mae angen cynnal yr asesiadau effaith hyn ar gyfer pob polisi newydd a diwygiedig er mwyn sicrhau y cânt effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffaithriol na'r Saesneg. Gyda llaw, mae'r Swyddog laith Gymraeg presennol yn aelod o'r Grŵp Buddiannau Cydraddoldeb yr ymgynghorir ag ef ynghylch pob polisi.

Tabl 3: polisïau a phenderfyniadau polisi

Y polisïau a'r penderfyniadau polisi a fu'n destun asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg.

Polisi
Polisi Mewnol ar Chwythu'r Chwiban
Polisi Mewnol ar yr Iaith Gymraeg
Strategaeth Gwrth-Dwyll
Cynllun Ymateb i Dwyll
Cynllun Blynnyddol 2017-18



Trefniant SAC ar gyfer Ethol Aelodau sy'n Gyflogeion 2018
Polisi Adleoli
Polisi Recriwtio a Dethol
Polisi Teithio a Chynhaliaeth Bwrdd SAC
Polisi Teledu Cylch Cyfyng
Polisiau Prawf, Secondio ac Ailstrwythuro
Pecyn Cymorth Absenoldeb oherwydd Salwch
Polisi Apeliadau
Adolygiad o'r Ganolfan Deithiol (rhanbarth Gogledd Cymru)
Cynnig Cyflogau 2018
Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft
Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2017-18

## Cwynion

- 26 Yn ystod 2017-18, cawsom gŵyn drwy law Comisiynydd y Gymraeg ynghylch cwmni a gyflogir gan Swyddfa Archwilio Cymru i wneud gwaith archwilio ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gallu'r cwmni i gyfathrebu yn Gymraeg â chynghorau tref a chymuned, h.y. roedd y gŵyn yn ymwneud â'r safonau darparu gwasanaeth.
- 27 O dan Safonau'r Gymraeg, mae Swyddfa Archwilio Cymru ond yn gyfrifol am gydymffurfiaeth cwmnïau â'r Safonau pan fydd cwmnïau yn darparu gwasanaeth ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, nid unrhyw barti arall, megis yr Archwilydd Cyffredinol. At hynny, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 gwaherddir yr Archwilydd Cyffredinol rhag trefnu i gwmni ddarparu gwasanaethau ar ei ran. Felly, ni all Swyddfa Archwilio Cymru na'r Archwilydd Cyffredinol, yn gyfreithlon, fod yn destun ymchwiliad. Serch hynny, er mwyn ymdrin â'r pryderon a godwyd gan gynghorau tref a chymuned, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn datblygu cynllun gwella er mwyn helpu i sicrhau y caiff y ffordd y darperir gwasanaethau ei gwella.
- 28 Cawsom gŵyn hefyd gan gyngor cymuned ynghylch y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu gan yr un cwmni, er bod y gŵyn yn ymwneud â materion eraill megis dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru, natur y ceisiadau am wybodaeth a lefel y ffi archwilio. Cynhaliwyd ymchwiliad llawn. Mewn perthynas â safonau'r Gymraeg, ni nododd yr ymchwilydd unrhyw achosion pendant lle roedd y cwmni wedi methu â chyrraedd y safonau.
- 29 Er nad oedd yn gŵyn ffurfiol, cawsom hefyd fynegiant o anfodlonrwydd ar y ffordd roeddem wedi ymdrin ag ymchwiliad, yn enwedig mewn perthynas â'r ffaith bod yr achwynydd wedi'i hysbysu na fyddai'n cymryd mwy o amser i ymdrin ag ymchwiliad Cymraeg nag y byddai'n ei gymryd i ymdrin ag un Saesneg. Ymchwiliwyd i'r mater hwn a darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'r staff dan sylw.

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Cathedral Road  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-bost: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Gwefan: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)